

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Thegwch (FEIA)

Fersiwn 3.6 Mai 2017

Diben yr asesiad hwn yw rhoi gwybodaeth gytbwys i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a hyrwyddo ffyrdd gwell o weithio yn unol â chydaddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010), hyrwyddo'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), datblygu cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), a'r pedair agwedd ar y drafodaeth ynghylch tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd (Adroddiad Llawn CTC i'r Cyngor, 2013).

Cwblhawyd gan:
Gwasanaethau

Deborah Weston

Rôl: Rheolwr Datblygu

Pennaeth Gwasanaeth: Sarah Morgan

Dyddiad: 24/04/2018

Rwy'n cadarnhau bod y Pennaeth Gwasanaeth uchod wedi cytuno i gynnwys yr asesiad hwn

Ydw / Nac ydw

Pan fyddwch yn llenwi'r FEIA hwn, eich cyfrifoldeb chi yw ei gyflwyno i

impact.assessment@newport.gov.uk

1. Enw a disgrifiad o'r polisi / cynnig sy'n cael ei asesu. Amlinelliad o ddiben y polisi.

Diben y cynnig yw darparu ysgol gynradd newydd ar gyfer safle datblygu Glan Llyn yn unol â chytundeb cynllunio 106.

Mae'r asesiad yn ategu'r cais i'r Cabinet i bennu'n derfynol gynnig ad-drefnu'r ysgol a sefydlu ysgol gynradd dau ddosbarth derbyn ar safle datblygu Glan Llyn ar gyfer plant 3-11 oed.

Yn rhan o'r cytundeb adran 106 gyda'r Cyngor, mae'n ofynnol i'r datblygwr ddarparu'r ysgol newydd yn bennaf ar gyfer y teuluoedd sy'n byw ar y safle datblygu. Y nod wreiddiol oedd i'r ysgol newydd gael ei sefydlu a'i hagor ym Medi 2018. Mae safbwynt y Cyngor bellach wedi newid, fodd bynnag, a chynigir bod y dyddiad rhoi ar waith yn cael ei addasu i fis Medi 2019. Mae'r dyddiad agor gohiriedig yn gwneud amserlen sefydlu effeithiol hirach yn bosibl ar gyfer yr ysgol newydd yn nhermau penodi staff a chaffael adnoddau.

2. Amlinellwch sut yr ydych wedi/sut y byddwch yn cynnwys rhanddeiliaid yr effeithir arnynt gan y polisi/cynnig

Roedd y cynnig yn destun ymgynghori ffurfiol gydag ystod o randdeiliaid fel y'i diffiniwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgol statudol Llywodraeth Cymru. Mae'r adborth a gafwyd yn yr ymgynghoriad ffurfiol wedi'i amlinellu yn yr Adroddiad Ymgynghori a gyhoeddwyd ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.

Yn dilyn hynny, cyhoeddwyd cynnig statudol am gyfnod o 28 diwrnod, a chynigiodd hyn y cyfle i gyflwyno gwrthwynebiadau ffurfiol. Cafwyd 15 o wrthwynebiadau yn y cyfnod hwn. Amlinellir rhesymau manwl y gwrthwynebiadau ac ymatebion y Cyngor i'r pwyntiau a wnaethpwyd yn yr Adroddiad Gwrthwynebu a luniwyd ac mae'n cyd-fynd â'r adroddiad ar y penderfyniad. Bydd yr Adroddiad ar Wrthwynebiadau ar gael ar wefan y Cyngor.

3. Pa wybodaeth/dystiolaeth sydd gennych am randdeiliaid? e.e. barn, anghenion, defnydd gwasanaeth ac ati. Nodwch yr holl dystiolaeth sy'n berthnasol yn eich tyb.

Cynhaliwyd y cynnig yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013 statudol a chynnwys ymgynghoriad ag amrywiaeth o randdeiliaid. Caiff canlyniadau'r broses ymgynghori hon eu hamlinellu yn yr Adroddiad Ymgynghori sydd wedi'i baratoi a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.

Cyhoeddodd y Cyngor gynnig statudol rhwng 28 Chwefror 2018 a 28 Mawrth 2018 i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg a gynhelir gan y gymuned ar safle datblygu Glan Llyn ar gyfer bechgyn a merched rhwng 3 ac 11 oed dan fodel ysgol sy'n tyfu i'w hagor ym mis Medi 2019. Cyhoeddwyd y cynnig statudol gyda dyddiad gweithredu gwahanol i'r un yn y ddogfen ymgynghori wreiddiol yn dilyn ystyriaeth o'r argymhellion a wnaethpwyd yn yr adroddiad ymgynghori. Byddai'r dyddiad agor hwyrach hwn yn galluogi amserlen hirach i sefydlu'r ysgol newydd yn effeithiol o ran penodi staff a chaffael adnoddau.

Cyhoeddwyd y cynnig statudol ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd a chafodd copïau eu harddangos yn ardal leol yr ysgol, gan gynnwys yn y ddwy swyddfa werthu ar safle datblygu Glan Llyn. Hefyd cafodd manylion yn cadarnhau cyhoeddi'r hysbysiad eu rhannu gyda'r holl randdeiliaid fel y nodir yn y Cod Trefnu Ysgolion statudol, a'r anheddau y mae pobl yn byw ynddynt ar ddatblygiad Glan Llyn.

Cafwyd cyfres o wrthwynebiadau yn ystod y cam cynnig statudol, ac o ganlyniad i hynny rhaid cyfeirio'r penderfyniad terfynol i'r Cabinet a hwythau'n ymgymryd â rôl y Panel Penderfynu Lleol.

4. Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			Nodwch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: <ol style="list-style-type: none"> Hyrwyddo cyfle cyfartal Hyrwyddo cydlyniad cymunedol Helpu i ddileu gwahaniaethu/aflonyddu/erledigaeth anghyfreithlon?
	Cadarnhaol	Negyddol	Y naill na'r lla 	
Oedran		<input type="checkbox"/>		Bydd darparu lleoedd ysgol cynradd ychwanegol yn cefnogi dewis rhieni a darpariaeth ysgolion lleol i blant lleol. Ni ddylai hyn gael unrhyw effaith andwyol ar ysgolion eraill y ddinas a'r effaith a ddisgwylir yw darparu dysgu di-dor ledled y ddinas ar gyfer disgyblion cynradd. Caiff pob aelod o staff a gyflogir yn yr ysgol ei drin yn deg heb wahaniaethu ar sail y nodwedd hon.
Anabledd		<input checked="" type="checkbox"/>		Bydd darparu lleoedd ysgol cynradd ychwanegol yn cefnogi dewis rhieni a darpariaeth ysgolion lleol i blant lleol. Ni ddylai hyn gael unrhyw effaith andwyol ar ysgolion eraill y ddinas a'r effaith a ddisgwylir yw darparu dysgu di-dor ledled y ddinas ar gyfer disgyblion cynradd. Caiff pob aelod o staff a gyflogir yn yr ysgol ei drin yn deg heb wahaniaethu

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			<p>Nodwch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n:</p> <ol style="list-style-type: none"> Hyrwyddo cyfle cyfartal Hyrwyddo cydlyniad cymunedol Helpu i ddileu gwahaniaethu/aflonyddu/erledigaeth anghyfreithlon?
	Cadarnhaol	Negyddol	Y naill na'r lla II	
				ar sail y nodwedd hon.
Ail-bennu rhwedd/trawsryweddol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Os cymeradwyir y cynnig hwn, bydd disgyblion, rhieni/gofalwyr a staff yn gysylltiedig â'r ysgol. Os bydd unrhyw un neu rai o'r rhanddeiliaid hyn yn rhannu'r nodweddion gwarchoddedig, ystyrir eu hanghenion yn unol â'r polisiau perthnasol sydd ar waith gan gorff llywodraethu'r ysgol.
Priodas neu bartneriaeth sifil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Os cymeradwyir y cynnig hwn, caiff staff eu cyflogi i weithio yn yr ysgol. Caiff pob aelod o staff ei drin yn deg ac ni fydd y nodwedd a ddiogelir hon yn effeithio ar hynny.
Beichiogrwydd neu famolaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Os cymeradwyir y cynnig hwn, caiff staff eu cyflogi i weithio yn yr ysgol. Caiff pob aelod o staff ei drin yn deg ac ni fydd y nodwedd a ddiogelir hon yn effeithio ar hynny.
Hil	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Bydd darparu rhagor o leoedd ysgol gynradd yn rhoi dewis i rieni ac yn ehangu darpariaeth leol i blant lleol. Ni ddylai hyn gael unrhyw effaith andwyol sylweddol ar ysgolion eraill ledled y Ddinas a disgwylir y bydd addysg ddi-dor yn cael ei darparu ar gyfer disgyblion oed cynradd. Bydd pob un o ddisgyblion a staff yr ysgol yn cael eu trin yn deg ac ni wahaniaethir ar sail y nodwedd a ddiogelir hon.
Crefydd neu Gred neu ddim cred	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae wyth ysgol ffydd yng Nghasnewdd ac mae meini prawf gordanysgrifio'r ysgolion hyn yn rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion sy'n dymuno cael addysg ffydd. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r ddau gorff sy'n cynrychioli eglwysi yng Nghymru yn y gwaith o gynllunio lleoedd ysgol ffydd a bydd y trefniant hwn yn parhau pan ystyrir cynnig darpariaeth mewn unrhyw ysgol newydd yn y dyfodol.
Rhyw / Hunaniaeth Rhywedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Bydd darparu lleoedd ysgol gynradd yn rhoi dewis i rieni ac yn darparu ar gyfer plant lleol. Ni ddylai hyn gael unrhyw effaith andwyol sylweddol ar ysgolion eraill ledled y Ddinas a disgwylir y bydd addysg ddi-dôr yn cael ei darparu ar gyfer disgyblion oed cynradd. Os cymeradwyir y cynnig, bydd rhieni a gofalwyr yn gysylltiedig a byddan nhw'n cael eu trin yn deg heb wahaniaethu ar sail y nodwedd a ddiogelir hon.

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			<p>Nodwch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n:</p> <ol style="list-style-type: none"> Hyrwyddo cyfle cyfartal Hyrwyddo cydlyniad cymunedol Helpu i ddileu gwahaniaethu/aflonyddu/erledigaeth anghyfreithlon?
	Cadarnhaol	Negyddol	Y naill na'r lla II	
Cyfeiriadedd Rhywiol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Os cymeradwyir y cynnig hwn, bydd staff yn cael eu cyflogi yn yr ysgol. Caiff pob aelod o staff ei drin yn deg ac ni fydd y nodwedd a ddiogelir hon yn effeithio ar hynny.
Y Gymraeg	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno mewn nifer o ddogfennau polisi uchelgais i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio yn Gymraeg. Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn anelu at roi addysg Gymraeg i 30% o ddisgyblion 7 oed yng Nghymru erbyn 2020. Yn 2015, 25% oedd y ffigur hwn.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi yn 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr' mai addysg cyfrwng Cymraeg yw'r prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg ac o greu siaradwyr newydd".</p> <p>Mae Strategaeth Gymraeg Cyngor Dinas Casnewydd 2017-22 yn ymrwmo i gynyddu canran y plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg o 4% i 5% dros y pedair blynedd nesaf.</p> <p>Gan y bydd yr ysgol a gynigir yn gyfrwng Saesneg, ni fydd yn gwneud cyfraniad ystyrlon i gyflawni'r targedau hyn.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol yn teimlo bod modd cyfiawnhau hyn ar sail yr ymatebion cyn ymgynghori a gafwyd. Er i'r arolwg cyn ymgynghori gael ei gynnal i alluogi'r Cyngor i gasglu barnau trigolion presennol Glan Llyn, nid hwn oedd yr unig dystiolaeth a ddefnyddiwyd i bennu iaith yr ysgol. Ynghyd â'r adborth uniongyrchol hyn gan randdeiliaid, mae un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg – Ysgol Gymraeg Casnewydd – ychydig dros 2 filltir o'r ysgol newydd a gynigir ac adeg yr ymgynghoriad roedd lleoedd gwag ym mhob grŵp blwyddyn o'r dosbarth Derby'n i Flwyddyn Chwech.</p> <p>Mae lleoedd mewn ysgolion Saesneg yn y cyffiniau, ond mae'r ganran o leoedd gwag yn is yn yr ystâd ysgolion Saesneg yn gyffredinol. Mae'r ffaith bod 13% o leoedd dros ben yn Ysgol Gymraeg Casnewydd, o gymharu â 9% mewn ysgolion cynradd Saesneg ochr ddwyreiniol y ddinas, yn dangos hyn. O ganlyniad, penderfynwyd i ddangos tystiolaeth ynghylch ysgolion cyfrwng Saesneg yr ardal.</p> <p>Ni fydd gwneud Saesneg yn iaith yr ysgol gynradd newydd hon yn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru am y tro, ond</p>

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			<p>Nodwch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i ddileu gwahaniaethu/aflonyddu/erledigaeth anghyfreithlon?
	Cadarnhaol	Negyddol	Y naill na'r lla II	
				<p>mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i ymchwilio i'r angen am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob ysgol newydd.</p>

5 Sut mae eich cynnig wedi ymgorffori a blaenoriaethu egwyddor datblygu cynaliadwy o ran ei ddatblygiad?

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
Cydbwysu angen tymor byr gydag anghenion tymor hir	<i>Ydy, drwy sicrhau digonolrwydd hirdymor lleoedd ysgol mewn ardal sydd â photensial mawr o ran galw rhieni a chyflawni yn unol â chytundeb adran 106 y Cyngor. Yn erbyn hyn, fodd bynnag, mae'r rhagamcan disgyblion diweddaraf yn dangos tua 105 o leoedd dros ben mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg ac Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yng nghystyrau Llyswry a Llanwern yn Ionawr 2019 ar ôl rhoi ystyriaeth i'r cynnydd o'r safleoedd datblygu tai newydd hyn. Ymddengys felly fod lle i ddisgyblion sy'n byw ar safle datblygu Glan Llyn mewn ysgolion eraill yn yr ardal leol ym mlwyddyn academaidd 2018/19. Mae hyn yn cefnogi dull cost-ffeithiol gan y byddai lleoedd presennol mewn ysgolion yn cael eu llenwi cyn creu'r ysgol newydd. Byddai'n ymddangos yn rhesymol felly ystyried gohirio sefydlu'r ysgol gynradd newydd tan Fedi 2019.</i>
Cydwethio i gyflawni amcanion	<i>Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ffurfiol eisoes gan gynnwys targedu rhanddeiliaid ar gyfer gwaith ymgysylltu. Diweddarwyd yr Asesiad i ystyried effaith y cynnig. Yn ogystal mae'r ysgol yn cael ei darparu gan y datblygwr yn rhan o gytundeb cynllunio'r Cyngor.</i>
Cynnwys y sawl sydd â diddordeb a gofyn eu barn	<i>Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ffurfiol eisoes gan gynnwys targedu rhanddeiliaid ar gyfer gwaith ymgysylltu. Diweddarwyd yr Asesiad i ystyried effaith y cynnig.</i>
Rhoi adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu	<i>Mae cynyddu nifer y lleoedd ysgol cynradd sydd ar gael yn ategu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer "ysgol iawn yn y lle iawn" ac athroniaeth "ysgolion lleol ar gyfer plant lleol".</i>
Ystyried effaith pob nod llesiant at ei gilydd ac ar gyrff eraill	<i>Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion, cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol â phrif randdeiliaid a chyhoeddwyd cynnig statudol i roi cyfle i randdeiliaid i gyflwyno unrhyw wrthwynebiadau. Mae'r cynnig yn cefnogi "Cymru lewyrchus", "Cymru gydnerth", a "Cymru fwy cyfartal" ac nid yw'n effeithio'n andwyol ar unrhyw un o'r Nodau Llesiant eraill. Yn ychwanegol, mae'r cynnig yn cefnogi Amcan Llesiant Cyngor Dinas Casnewydd "Gwella sgiliau, deilliannau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth" ac "adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy".</i>

6 A fydd y cynnig/polisi yn effeithio'n anghymesur ar ardal ddaearyddol benodol yng Nghasnewydd?

Bydd y newid a gynigir yn effeithio'n bennaf ar ardal Llanwern y Ddinas, serch hynny gellir gwneud ceisiadau i'r ysgol am leoedd i blant o ledled y Ddinas. Mae'r Cyngor yn anelu at ddarparu ysgolion lleol ar gyfer plant lleol a thaith addysg sengl ar gyfer plant yn ystod eu cyfnod yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

7 Sut mae'r cynnig/polisi yn berthnasol i'r paramedrau dadlau ynghylch Tegwch a nodwyd yng Nghomisiwn Tegwch Casnewydd?

8

Bydd darparu lleoedd ysgol gynradd ychwanegol mewn ardal galw mawr yn cefnogi'r Polisi Derbyn i Ysgolion o fewn ymgeiswyr yn deg. Bydd mynediad cyfartal yn cael ei wella i leoedd ysgol a llwybr dysgu di-dor ar gyfer plant 3011 oed.

9 O ystyried yr asesiad hwn yn ei gyfanrwydd, beth gellid ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i'ch polisi a chyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?

Ni fydd gwneud Saesneg yn iaith yr ysgol gynradd newydd hon yn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru am y tro, ond mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i ymchwilio i'r angen am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob ysgol newydd.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r ddau gorff eglwysig cynrychioladol i gynllunio lleoedd mewn ysgolion ffydd a bydd y trefniant hwn yn parhau pan ystyrir cynnig darpariaeth mewn unrhyw ysgol newydd yn y dyfodol.

10 Monitro, gwerthuso ac adolygu

Y bwriad yn y dechrau oedd agor yr ysgol yn 2018. Mae'r Cyngor wedi newid ei feddwl a chynigir bellach iddi agor ym mis Medi 2019.

Caiff effaith y cynnig ei gwerthuso yn dilyn ei gweithredu'n llawn. Mae'r Asesiad wedi'i adolygu a'i ddiweddarau ar gamau drwy gydol y cynnig.

11 Cynhwysiant

Cynghorwyd rhanddeiliaid o gyhoeddi'r hysbysiad statudol a rhennir manylion am ei bennu fel sy'n briodol.

12 Crynodeb o Effaith (ar gyfer cynhwysiant mewn unrhyw adroddiad)

Deddf Cydraddoldeb 2010 A'r Iaith Gymraeg

Bydd yr ysgol newydd a gynigir yn gwasanaethu plant teuluoedd sy'n byw ar safle datblygu Glan Llyn gan roi ysgol gynradd leol a chan feithrin perthnasoedd cadarnhaol yn amgylchedd yr ysgol a'r cyffiniau. Caiff lleoedd yn yr ysgol eu dyrannu'n unol â Pholisi Derbyn i Ysgolion sy'n cefnogi system deg ar gyfer dyrannu lleoedd.

Yn nhermau darpariaeth iaith, cynhaliwyd arolwg cyn ymgynghori anffurfiol i alluogi'r Cyngor i gasglu barn trigolion presennol Glan Llyn. Defnyddiwyd tystiolaeth arall ar ben hyn i bennu cyfrwng iaith yr ysgol newydd. Ynghyd â'r adborth uniongyrchol hyn gan randdeiliaid, mae un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng nghyffiniau'r ysgol newydd a gynigir ac adeg yr ymgynghoriad roedd lleoedd gwag ym mhob grŵp blwyddyn o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn Chwech yn ystâd ysgolion cynradd.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Yn gryno, mae'r cynnig yn cefnogi llesiant drwy ddarparu rhagor o leoedd ysgol gynradd yn y Ddinas. Mae "ysgol iawn yn y lle iawn" ac "ysgolion lleol ar gyfer plant lleol" hefyd yn cynorthwyo i ddiwallu anghenion plant a fyddai fel arall yn gorfod mynd i ysgolion pell o'u cartrefi felly mae hyn yn lleihau amseroedd teithio a chostau.